

Gwerthwchi Gymru

Canllaw i Gyflenwyr – Dyfynbris Cyflym



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Tabl Cynnwys

Beth yw Dyfynbris Cyflym?	2
Sut gallaf gael fy newis ar gyfer Dyfynbris Cyflym?	2
Sut gallaf gael mynediad at fy Nyfynbris Cyflym?	2
Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael fy ngwahodd i gynnig Dyfynbris?.....	4
Sut rydw i'n cael mynediad at ddyfynbris cyflym os nad wyf wedi cael fy ngwahodd i gyflwyno dyfynbris?	4
Sut gallaf Dderbyn neu Wrthod Dyfynbris Cyflym?	6
Sut gallaf gyflwyno fy ymateb i Ddyfynbris Cyflym?	7
Sut byddaf yn gwybod canlyniad Dyfynbris Cyflym?	7



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Beth yw Dyfynbris Cyflym?

Cyfleuster cyflwyno dyfynbris ar-lein yw Dyfynbris Cyflym sy'n galluogi Prynwyr i gael dyfynbrisiau cystadleuol yn electronig ar gyfer gofynion gwerth isel. Caiff manylion y Dyfynbris Cyflym eu creu ar y porth a'u dosbarthu i restr o gyflenwyr. Caiff Dyfynbrisiau Cyflym ond eu dosbarthu i'r cyflenwyr a ddewiswyd ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ar y porth cyhoeddus.

Os cewch eich gwahodd i gyflwyno dyfynbris, mae'n rhaid i chi gwblhau'r manylion sydd eu hangen a chyflwyno eich dyfynbris drwy ddefnyddio'r Blwch Postio diogel (i gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler y canllaw ar y Blwch Postio).

Sut gallaf gael fy newis ar gyfer Dyfynbris Cyflym?

Y ffordd orau o gael eich dewis ar gyfer Dyfynbris Cyflym yw drwy gwblhau eich proffil *Canfod Cyflenwr*. I gael rhagor o wybodaeth am y swyddogaeth *Canfod Cyflenwr* gweler y Canllaw ar Ganfod Cyflenwr.

Sicrhewch eich bod chi hefyd wedi cofrestru ar gyfer y categorïau perthnasol drwy eich Proffil Rhybuddion.

Sut gallaf gael mynediad at fy Nyfynbris Cyflym?

I gael mynediad at y Dyfynbrisiau Cyflym, rhaid i Gyflenwyr ddewis 'Fy Nghyfrif' yn y ddewislen uchaf er mwyn mynd i Banel Rheoli'r Cyflenwr. Dewiswch 'Rhestr Diddordeb' o dan y pennawd Fy Hysbysiadau ar y dudalen hon.



Panel Rheoli'r Cyflenwr

Croeso i Banel Rheoli'r Cyflenwr Claire . Cliciwch ar ddolen yn un o'r adrannau priodol er mwyn mynd i'r ardal o'r wefan rydych am fynd iddi.

CHWILIO

- Hysbysiadau Diweddaraf
- Chwilio am Awdurdodau
- Chwilio am Cyflenwyr
- Chwilio am Gyfeirnod Hysbysiad
- Chwiliad Manwl

FY HYSBYSIADAU

Rhestr Diddordeb
Rhybuddion am Hysbysiadau

FY YMATEBION

Ymatebion yn y Blwch Postio

FY MHROFFIL

- Proffil y Cwmni
- Proffil Rhybuddion
- Proffil Canfod Cyflenwr
- ESPD

FY NGHYFRIF

- Manylion Defnyddiwr
- Newid Cyfrinair
- Tanysgrifiadau
- Cofrestru i gyhoeddi cyfleoedd is-gontractio

CYMORTH

- Canllawiau i ddefnyddwyr
- Cwestiynau Cyffredin
- Cysylltu â Ni

Mae'r rhestr diddordeb bellach yn arddangos hysbysebion cyhoeddus rydych wedi cofnodi diddordeb ynddynt a'r dyfynbrisiau cyflym y gwahoddwyd i chi eu cyflwyno. Byddwch yn gallu adnabod dyfynbris cyflym drwy'r symbol arwydd gwyrdd ar ochr chwith y sgrin. I weld y dyfynbris cyflym, dewiswch deitl yr hysbysiad, 'Gwasanaethau Tacsî' yn yr enghraifft isod:

Gweld hysbysiadau a archifwyd rydych wedi cofnodi diddordeb ynddynt.

Hysbysiadau Cyfredol

Dyddiad cau	Cofnodwyd	Manylion
31/01/19	23/01/19	Teitl: Office equipment Rhif Cyfeirnod: JAN260085 Cyhoeddwyd Gan: Millstream Associates Ltd Math o Ddogfen: Dyfynbris

Hysbysiadau Sydd wedi Dod i Ben

Dyddiad cau	Cofnodwyd	Manylion
27/07/18	19/06/18	Teitl: NMWTRA Multi-Disciplinary Consultancy Framework 2018 Rhif Cyfeirnod: JUN256108 Cyhoeddwyd Gan: Gwynedd Council Math o Ddogfen: SF02 Contract notice



Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael fy ngwahodd i gynneg Dyfynbris?

Os cewch eich dewis i gyflwyno dyfynbris, cewch e-bost yn cynnwys dolen sy'n mynd â chi i'ch tudalen rhestr diddordeb. Mae'r dudalen hon yn nodi manylion y gofyniad ac yn gofyn i chi naill ai dderbyn neu wrthod y gwahoddiad.

Mae'r dudalen Dyfynbris Cyflym yn rhoi mynediad i chi at unrhyw ddogfennau ategol a gafodd eu lanlwytho yn ogystal â mynediad at y swyddogaeth Holi ac Ateb os yw'n berthnasol. Gellir dod o hyd i'r rhain ar waelod y dudalen o dan "Cyfarwyddiadau Pellach".

Ar ôl darllen drwy fanylion y gofyniad, dylech fod mewn sefyllfa i dderbyn neu wrthod y gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris.

Sut rydw i'n cael mynediad at ddyfynbris cyflym os nad wyf wedi cael fy ngwahodd i gyflwyno dyfynbris?

Os ydych chi am gael mynediad at ymarfer cyflwyno dyfynbris y mae un o'ch cydweithwyr wedi cael ei wahodd iddo, gallwch wneud cais am hyn drwy'r wefan. I wneud cais am wahoddiad, cliciwch ar y ddolen yn y gwahoddiad e-bost y gwnaeth eich cydweithiwr ei dderbyn ac mewngofnodwch drwy ddefnyddio eich manylion eich hun. Ar ôl i chi fewngofnodi, bydd sgrin yn ymddangos yn nodi bod eich mynediad wedi'i wrthod a chewch yr opsiwn i wneud cais am fynediad.

Dyfynbris Cyflym - Gwrthod Mynediad

Rhestr Diddordeb > Dyfynbris Cyflym - Gwrthod Mynediad

Gwrthodwyd mynediad i'r Dyfynbris Cyflym hwn am nad yw eich cofrestrriad wedi'i gynnwys ar y rhestr ddsbarthu a luniwyd gan y sefydliad prynu. Y defnyddiwr cofrestredig a wahoddwyd i gynneg dyfynbris yw claire@millstream.eu. Gall y defnyddiwr hwn gael mynediad at y dyfynbris cyflym. Os hoffech i'ch cofrestrriad gael ei ychwanegu at y rhestr ddsbarthu, gallwch ofyn i'r prynwr eich ychwanegu at y rhestr ddsbarthu isod.

Cais am Fynediad

Os byddwch yn dewis yr opsiwn 'Cais am Fynediad', yna gofynnir i chi anfon neges at y prynwr yn esbonio pam bod angen mynediad arnoch at y dyfynbris cyflym yn lle'r sawl a wahoddwyd yn wreiddiol.



Dyfnbris Cyflym - Cais am Fynediad

Member Interest List > Dyfnbris Cyflym - Cais am Fynediad

Ysgrifennwch neges i'r prynwr yn esbonio pam bod angen mynediad arnoch at y Dyfnbris Cyflym hwn ac yna dewiswch **Cyflwyno**. Caiff eich neges ei throsglwyddo i'r prynwr mewn e-bost a chewch eich hysbysu drwy e-bost ar ôl iddo weithredu ar eich cais.

* Gwybodaeth ofynnol.

*** Neges**

Claire Has left the company, please can I be invited instead.

Cyflwyno **Canslo**

Dewiswch yr opsiwn 'Cyflwyno' i anfon eich cais at y prynwr. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, cewch gadarnhad bod eich cais wedi'i anfon.

Dyfnbris Cyflym - Cais am Fynediad

Member Interest List > Dyfnbris Cyflym - Cais am Fynediad

✓ Anfonwyd y neges.

Rhoddir opsiwn i'r prynwr dderbyn neu wrthod y cais. Os yw'r prynwr yn derbyn y cais, cewch wahoddiad i gyflwyno'r dyfnbris cyflym drwy e-bost. Os yw'r prynwr yn gwrthod y cais, cewch e-bost i'ch hysbysu o hyn.



Sut gallaf Dderbyn neu Wrthod Dyfynbris Cyflym?

Naill ai cliciwch ar y ddolen drwy'r e-bost derbyn cais y prynwr neu dewiswch y Dyfynbris Cyflym perthnasol o'ch rhestr diddordeb i fynd i dudalen manylion y Dyfynbris Cyflym. O'r fan hon, mae gennych y dewis wedyn naill ai i ddewis 'derbyn gwahoddiad' neu 'gwrthod gwahoddiad'.

Tudalen fanylion y Dyfynbris Cyflym

Manylion yr Hysbysiad

Rhestr Diddordeb yr Aelod > Manylion yr Hysbysiad


Isod ceir manylion llawn yr hysbysiad sydd ar eich rhestr diddordeb ar hyn o bryd gan gynnwys dogfennau atodol a chwestiynau ac atebion lle y bo'n briodol. Dewiswch y tab priodol isod i weld y wybodaeth yn yr hysbysiad neu dewiswch o Gamau Gweithredu'r Hysbysiad.

Camau Gweithredu'r Hysbysiad

Ewch i'r Blwch Postio

Argraffu'r Hysbysiad hwn

Crynodeb	Testun Llawn	Gwybodaeth Bellach	Gwybodaeth Gyswilt	Codio
Teitl: Office equipment				
Cyhoeddwyd gan: Millstream Associates Ltd				
Dyddiad Cyhoeddi: 23/01/19				
Dyddiad Cau: 31/01/19				
Amser Cau: 12:00				
Math o Hysbysiad: Dyfynbris				
Yn Cynnwys Na				
Dogfennau:				
Yn ESPD: Na				
Crynodeb: Chairs				



Os byddwch yn gwrthod y gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris, gofynnir i chi roi rheswm dros hynny a bydd y rheswm hwn yn cael ei roi i'r prynwr a oedd wedi eich gwahodd.

Noder: Os hoffech i un o'ch cydweithwyr ymateb i Ddyfynbris Cyflym rydych chi wedi cael eich gwahodd iddo, dylech gysylltu â'r Awdurdod er mwyn gofyn iddo anfon manylion cofrestru eich cydweithiwr.



Sut gallaf gyflwyno fy ymateb i Ddyfynbris Cyflym?

Mae Dyfynbris Cyflym yn defnyddio swyddogaeth blwch postio electronig GwerthwchiGymru. I greu eich ymateb blwch postio, mae'n rhaid i chi dderbyn y gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris ac yna cliciwch ar y botwm "Ewch i'r Blwch Postio". I gael rhagor o wybodaeth am y blwch postio, gweler y Canllaw perthnasol i Gyflenwyr ar y Blwch Postio.

Tudalen fanylion y Dyfynbris Cyflym

Manylion yr Hysbysiad

[Rhestr Diddordeb yr Aelod](#) > Manylion yr Hysbysiad

Isod ceir manylion llawn yr hysbysiad sydd ar eich rhestr diddordeb ar hyn o bryd gan gynnwys dogfennau atodol a chwestiynau ac atebion lle y bo'n briodol. Dewiswch y tab priodol isod i weld y wybodaeth yn yr hysbysiad neu dewiswch o Gamau Gweithredu'r Hysbysiad.

Camau Gweithredu'r Hysbysiad

[Ewch i'r Blwch Postio](#)

[Argraffu'r Hysbysiad hwn](#)

Crynodeb Testun Llawn Gwybodaeth Bellach Gwybodaeth Gyswllt Codio

Teitl: Office equipment	
Cyhoeddwyd gan: Millstream Associates Ltd	
Dyddiad Cyhoeddi: 23/01/19	
Dyddiad Cau: 31/01/19	
Amser Cau: 12:00	
Math o Hysbysiad: Dyfynbris	
Yn Cynnwys Na	
Dogfennau:	
Yn ESPD: Na	
Crynodeb: Chairs	

Sut byddaf yn gwybod canlyniad Dyfynbris Cyflym?

Ar ôl i'r dyddiad cau ddod i ben ac ar ôl i'r ymatebion gael eu hasesu gan y prynwr, anfonir e-bost yn rhoi gwybod i chi a fuoch yn llwyddiannus ai peidio.

Unrhyw ymholiadau eraill

Mae desg gymorth GwerthwchiGymru ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:30am a 5pm er mwyn helpu gydag unrhyw ymholiadau a gellir cysylltu â'r ddesg ar 0800 222 9004 neu help@sell2wales.gov.wales